

Hawl y mis

Isod fe gewch weithgareddau cysylltiedig â Hawl y Mis. Gallwch chi osod y gweithgareddau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc. Mae rhai o'r awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau yn galw am rywfaent o flaengynllunio ac adnoddau.

Y cyfnod sylfaen

Mis	Hawl	Tasg
Ionawr	Erthygl 29 – Mae gen ti hawl i fod y gorau gelli di fod. Rhaid i addysg dy helpu i ddatblygu dy sgiliau a'th ddoniau yn llawn.	Gofynnwch i'r plant feddwl am un peth maen nhw'n ei wneud yn dda. Gallen nhw rannu fe gyda chi neu dynnu llun ohono fe.
Chwefror	Erthygl 15 – Mae gen ti hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.	Gofynnwch i'r plant siarad am eu ffrindiau. Siaradwch am beth sy'n gwneud ffrind da. Gallai'r plant dynnu llun o'u ffrind, neu ysgrifennu llythyr atyn nhw.
Mawrth	Erthygl 7 – Mae gen ti hawl i gael enw a chenedl.	Esboniwch wrth y plant ein bod ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi y mis yma yng Nghymru. Gweithiwch gyda'ch gilydd i goginio rysait blasus traddodiadol o Gymru.
Ebrill	Erthygl 24 – Mae gen ti hawl i gael dŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da.	Gofynnwch i'r plant enwi'r holl ffyrdd maen nhw'n cadw'n iach. Gallech chi roi cynnig ar goginio rysait iach gyda'ch gilydd neu gymryd rhan mewn un o'r gweithgareddau gafodd eu henwi.
Mai/Mehefin	Erthygl 27 – Mae gen ti hawl i gael tŷ, bwyd a dillad addas. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu hyn.	Gofynnwch i'r plant ydyn nhw'n gallu enwi gwahanol fathau o dywydd? Gofynnwch i'r plant ydyn nhw'n gallu enwi'r mathau o ddillad dylen nhw wisgo mewn tywydd gwahanol. Gallen nhw dynnu lluniau o'r gwisgoedd.
Gorffennaf / Awst	Erthygl 31 – Mae gen ti hawl i ymlacio a chwarae.	Gofynnwch i'r plant ddweud wrthyh chi am eu hoff gêm. Lluniwch restr o'u hoff gêmiau a chymryd tro yn chwarae pob un.
Medi	Erthygl 28 – Mae gen ti hawl i gael addysg.	Gofynnwch i'r plant feddwl am 2 beth maen nhw'n eu gwneud yn dda ac un peth hoffon nhw ddysgu eleni.

Hydref	Erthygl 12 – Mae gen ti hawl i gael dy wrando a'th gymryd o ddifri.	Pa emosiynau rydyn ni'n teimlo bob dydd? Defnyddiwch wers 2 o'r adnodd hwn i greu wal teimladau gyda'r plant.
Tachwedd	Erthygl 19 – Mae gen ti hawl i gael dy amddiffyn rhag niwed neu driniaeth wael.	Siaradwch â'r plant am y gwahanol bobl sy'n eu cadw nhw'n ddiogel yn eu cymuned. Ar ôl y sgwrs, gallai'r plant dynnu llun, cymryd rhan mewn chwarae rôl, neu ysgrifennu at rywun yn eu cymuned. Gallech chi ddefnyddio syniadau o'r adnodd yma.
Rhagfyr	Erthygl 14 – Mae gen ti hawl i ymarfer dy grefydd dy hun, tra bod ti ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.	Gofynnwch i'r plant siarad â rhywun yn eu tŷ am eu dathliadau fel teulu. Lluniwch boster yn dangos un o'r dathliadau.

Cyfnod Allweddol 2

Mis	Hawl	Tasg
Ionawr	Erthygl 29 – Mae gen ti hawl i fod y gorau gelli di fod. Rhaid i addysg dy helpu i ddatblygu dy sgiliau a’th ddoniau yn llawn.	Gofynnwch i’r plant feddwl am 5 peth hoffon nhw eu gwneud eleni. Gofynnwch iddyn nhw greu rhestr a’i rhannu gyda rhywun arall.
Chwefror	Erthygl 15 – Mae gen ti hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.	Gofynnwch i’r plant feddwl beth sy’n gwneud ffrind da. Gofynnwch i’r plant dynnu llun ffrind ac ysgrifennu’r geiriau o amgylch y llun.
Mawrth	Erthygl 7 – Mae gen ti hawl i gael enw a chenedl.	Gofynnwch i’r plant feddwl am eu henw a’u cenedl a chreu gwaith celf sy’n adlewyrchu hynny.
Ebrill	Erthygl 24 – Mae gen ti hawl i gael dŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da.	Cysylltiadau â Diwrnod Iechyd y Byd. Gofynnwch i’r plant wneud un o’r syniadau yma: Meddwl am y bwyd rwyt ti’n ei fwyta a thynnu llun o blât bwyta’n dda. Meddwl am sut rydyn ni’n defnyddio dŵr er mwyn peidio â’i wastraffu. Meddwl am y bobl sy’n dy helpu os wyt ti’n teimlo’n sâl.
Mai/Mehefin	Erthygl 27 – Mae gen ti hawl i gael tŷ, bwyd a dillad addas. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy’n methu fforddio darparu hyn.	Gofynnwch i’r plant ddylunio tŷ, dillad a lle i gysgodi. Gofynnwch iddyn nhw feddwl beth sydd ei angen ar blentyn i dyfu i fyny’n teimlo’n hapus, yn iach ac yn ddiogel.
Gorffennaf / Awst	Erthygl 31 – Mae gen ti hawl i ymlacio a chwarae.	Gofynnwch i’r plant lunio rhestr yn nhrefn yr wyddor o’r holl bethau maen nhw’n hoffi eu gwneud i ymlacio a chwarae (gallen nhw weithio gyda’i gilydd mewn timau bach). Cymerwch amser i roi cynnig ar rai o’r gwahanol weithgareddau gyda’ch gilydd.
Medi	Erthygl 28 – Mae gen ti hawl i gael addysg.	Gofynnwch i’r plant wneud un o’r gweithgareddau canlynol: Meddwl am 1 peth newydd rydych chi wedi dysgu amdano a chreu poster amdano.

		Tynnu llun o'ch ysgol a cheisio cysylltu ardaloedd yn eich ysgol â'ch hawliau.
Hydref	Erthygl 12 – Mae gen ti hawl i gael dy wrando a'th gymryd o ddifri.	<p>Cynhaliwch drafodaeth gyda'r plant – allan nhw feddwl am rywbeth yn eich cymuned maen nhw'n cael lleisio barn arno?</p> <p>Gallai'r plant ddefnyddio ein hadnodd Gwneud Gwahaniaeth i godi llais am faterion sy'n bwysig iddyn nhw.</p>
Tachwedd	Erthygl 19 – Mae gen ti hawl i gael dy amddiffyn rhag niwed neu driniaeth wael.	<p>Gallai'r plant wneud un o'r gweithgareddau canlynol:</p> <p>Meddwl am y bobl sy'n eich cadw chi'n ddiogel a chreu rhestr.</p> <p>Meddwl am noson tân gwyllt, allech chi greu poster am gadw'n ddiogel?</p> <p>Mae wythnos gwrthfwlio hefyd yn digwydd y mis yma, lluniwch ddarn o waith celf i ddweud wrth eraill amdani.</p>
Rhagfyr	Erthygl 14 – Mae gen ti hawl i ymarfer dy grefydd dy hun, tra bod ti ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.	<p>Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau bach i ddysgu am grefydd arall. Beth yw'r prif bethau maen nhw'n eu credu a'r prif ddatliadau?</p> <p>Gallai'r plant greu poster i ddangos eu dysgu.</p>

Cyfnod Allweddol 3

Mis	Hawl	Tasg
Ionawr	Erthygl 29 – Mae gen ti hawl i fod y gorau gelli di fod. Rhaid i addysg dy helpu i ddatblygu dy sgiliau a’th ddoniau yn llawn.	Gofynnwch i’r bobl ifanc gymryd ychydig funudau i feddwl beth hoffen nhw gyflawni yn ystod y tymor nesaf. Gofynnwch iddyn nhw sut gallan nhw gyflawni hynny, a phwy fydd yn gallu eu cefnogi. Gofynnwch i’r bobl ifanc sut mae ei haddysg yn eu cefnogi a beth sydd ar goll.
Chwefror	Erthygl 15 – Mae gen ti hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.	Gofynnwch i’r bobl ifanc pa glybiau/grwpiau a sefydliadau sydd eisoes yn bodoli yn eu cymuned. Oes yna unrhyw beth ar goll?
Mawrth	Erthygl 7 – Mae gen ti hawl i gael enw a chenedl.	Gofynnwch i’r bobl ifanc feddwl beth sy’n ein gwneud ni’n Gymry. Beth mae hynny’n ei olygu? Gofynnwch i’r bobl ifanc feddwl am Erthygl 8 hefyd a beth sy’n ffurfio eu hunaniaeth.
Ebrill	Erthygl 24 – Mae gen ti hawl i gael dŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da.	Gofynnwch i’r bobl ifanc feddwl am 3 pheth maen nhw’n eu gwneud i gadw corff a meddwl iach. Ydy pob person ifanc yng Nghymru yn cael y gefnogaeth gywir?
Mai/Mehefin	Erthygl 27 – Mae gen ti hawl i gael tŷ, bwyd a dillad addas. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy’n methu fforddio darparu hyn.	Gofynnwch i’r bobl ifanc wneud un o’r gweithgareddau canlynol: Gan feddwl am eich hawliau plant: 1. Dyluniwch eich cartref delfrydol 2. Dyluniwch bryd o fwyd 3. Dyluniwch wisg i chi’ch hunan. Cwestiwn adfyfiriol: Pam dylai’r llywodraeth gefnogi plant i gael erthygl 27?
Gorffennaf / Awst	Erthygl 31 – Mae gen ti hawl i ymlacio a chwarae.	Gofynnwch i’r bobl ifanc feddwl am beth maen nhw’n ei wneud i ymlacio a’r gwahanol ffyrdd maen nhw’n treulio eu hamser sbâr?

		Allen nhw gael diwrnod i rannu'r gweithgareddau yma gyda'u cyfoedion?
Medi	Erthygl 28 – Mae gen ti hawl i gael addysg.	Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl am eu hawl i gael addysg. Ydy pob plentyn a pherson ifanc yn profi'r hawl yma yn yr un ffordd?
Hydref	Erthygl 12 – Mae gen ti hawl i gael dy wrando a'th gymryd o ddifri.	Gofynnwch i'r bobl ifanc enwi pobl sy'n gwrandao arnyn nhw a'u cymryd o ddifri. Gofynnwch "Os nad ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael gwrandawriad, pwy sy'n gallu eich cefnogi?"
Tachwedd	Erthygl 19 – Mae gen ti hawl i gael dy amddiffyn rhag niwed neu driniaeth wael.	Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl am sut gallan nhw gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Gallech chi ddefnyddio'r adnodd hwn i archwilio bwlio.
Rhagfyr	Erthygl 14 – Mae gen ti hawl i ymarfer dy grefydd dy hun, tra bod ti ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.	Gofynnwch i'r bobl ifanc fyfyrion am y gwahanol grefyddau o'u cwmpas, yn yr ysgol neu yn eu cymuned. Siaradwch amdany'n nhw fel grŵp. Beth rydych chi'n ei wybod am y grefydd yma? Oes angen i chi ddysgu mwy amdani?

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Efallai bydd angen sgaffaldiau ar ffurf symbolau/lluniau ar rai o'r gweithgareddau hyn, i gefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan.

Mis	Hawl	Tasg
Ionawr	Erthygl 29 – Mae gen ti hawl i fod y gorau gelli di fod. Rhaid i addysg dy helpu i ddatblygu dy sgiliau a'rh ddoniau yn llawn.	Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl am 5 peth maen nhw'n eu gwneud yn dda – drwy ysgrifennu neu dynnu llun ohonyn nhw. Yna gofynnwch i'r bobl ifanc siarad â rhywun arall yn y grŵp am y pethau maen nhw'n eu gwneud yn dda – oes ganddyn nhw ddoniau cyffredin?
Chwefror	Erthygl 15 – Mae gen ti hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.	Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl am 1 o'u ffrindiau. Beth sy'n eu gwneud nhw'n arbennig? Tynnwch lun neu ysgrifennwch am eich ffrind.
Mawrth	Erthygl 7 – Mae gen ti hawl i gael enw a chenedl.	Gofynnwch i'r bobl ifanc ysgrifennu eu henw ar ddarn o bapur. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am 5 peth sy'n arbennig neu'n unigryw amdany'n nhw. Tynnwch lun o'r pethau yna neu eu hysgrifennu o amgylch eu henw. (Gallech chi ddefnyddio deunyddiau eraill fel clai neu dywod i ysgrifennu enwau'r bobl ifanc).
Ebrill	Erthygl 24 – Mae gen ti hawl i gael dŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da.	Gweithiwch gyda'r plant a'r bobl ifanc i ddewis rysait a'i greu. Siaradwch am y cynhwysion rydych chi'n eu defnyddio. "Allwch chi eu henwi?" "Ydych chi'n gwybod i ba grŵp bwyd maen nhw'n perthyn?"
Mai/Mehefin	Erthygl 27 – Mae gen ti hawl i gael tŷ, bwyd a dillad addas. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu hyn.	Gweithiwch gyda'ch gilydd i adeiladu cysgod/cuddfan. Wrth i chi adeiladu, gofynnwch i'r plant a'r bobl ifanc feddwl am eu cartrefi eu hunain a'r bobl sy'n byw gyda nhw.
Gorffennaf / Awst	Erthygl 31 – Mae gen ti hawl i ymlacio a chwarae.	Gofynnwch i'r bobl ifanc ddarganfod beth yw hoff beth eu ffrindiau i chwarae. Yn eich tro, dysgwch yr hoff gêmiau i'ch gilydd.

Medi	Erthygl 28 – Mae gen ti hawl i gael addysg.	Cynhaliwch drafodaeth amser cylch. Gofynnwch i'r plant a'r bobl ifanc "am beth rydych chi'n hoffi dysgu?"
Hydref	Erthygl 12 – Mae gen ti hawl i gael dy wrando a'th gymryd o ddifri.	Defnyddiwch yr adnodd yma i archwilio erthygl 12.
Tachwedd	Erthygl 19 – Mae gen ti hawl i gael dy amddiffyn rhag niwed neu driniaeth wael.	Defnyddiwch yr adnodd yma i archwilio bod yn ddiogel.
Rhagfyr	Erthygl 14 – Mae gen ti hawl i ymarfer dy grefydd dy hun, tra bod ti ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.	Paratoi: Casglwch luniau o wahanol adeiladau crefyddol. Gofynnwch i'r plant siarad am yr adeiladau a beth gallan nhw weld. Gallech chi gynllunio taith i adeilad crefyddol.